# Gweithdrefnau Gêm Bingo Millionaire




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer BINGO MILLIONAIRE (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"BINGO MILLIONAIRE"**
Rhif y Gêm: **"1196"**
Pris Manwerthu: **£5 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.47 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 11,863,560 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys saith adran sydd wedi'u nodi fel "CALLER'S CARD", "CARD 1", "CARD 2", "CARD 3", "CARD 4", "CARD 5" a "CARD 6". Bydd crafu haen y CALLER'S CARD yn datgelu 40 o rifau (y "Rhifau Bingo"). Mae CERDYN 1, CERDYN 2, CERDYN 3, CERDYN 4, CERDYN 5 a CHERDYN 6 ("CARDIAU", "CERDYN" yn unigol) yn cynnwys tabl gwobrau coch ("Tabl Gwobrau") gyda 27 o sgwariau yr un, y mae gan 15 ohonynt Symbolau Chwarae a 12 o flychau gwag.

Chwaraeir y Gêm drwy grafu'r haen gyfan ar y CALLER'S CARD i ddatgelu'r Rhifau Bingo ac yna gyfateb y Rhifau Bingo i'r rhifau a ddangosir ar GERDYN 1, CERDYN 2, CERDYN 3, CERDYN 4, CERDYN 5 a CHERDYN 6. Er mwyn cadarnhau bod rhif ar GERDYN yn cyfateb i Rif Bingo, dylech grafu'r rhif hwnnw ar y CERDYN perthnasol i ddatgelu'r rhif unfath ("Rhif Cyfatebol").

Er mwyn ennill Gwobr sydd wedi'i rhestru yn y Tabl Gwobrau ar GERDYN, rhaid bod gennych Gerdyn Crafu sy'n cynnwys Rhifau Cyfatebol yn un o'r patrymau canlynol ar y CERDYN hwnnw ("Patrwm Buddugol"):

**PATRWM 1 LLINELL:**
- 1 llinell lorweddol o 5 Rhif Cyfatebol ar unrhyw un o'r CARDIAU (A DDANGOSIR AR FFURF BLYCHAU WEDI'U CROESI)

Enghraifft

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ~~05~~ | | ~~24~~ | | | ~~51~~ | ~~60~~ | | ~~88~~ |
| 09 | | | 33 | 45 | | 63 | | 90 |
| | 11 | 29 | 34 | | 59 | | 72 | |

DS – Mae blychau gwag ar GERDYN yn fwriadol ac ni ellir eu defnyddio i greu Patrwm Buddugol.

**PATRWM 2 LINELL:**
- 2 linell lorweddol o 5 Rhif Cyfatebol ar unrhyw un o'r CARDIAU (A DDANGOSIR AR FFURF BLYCHAU WEDI'U CROESI)

Enghraifft

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ~~05~~ | | ~~24~~ | | | ~~51~~ | ~~60~~ | | ~~88~~ |
| ~~09~~ | | | ~~33~~ | ~~45~~ | | ~~63~~ | | ~~90~~ |
| | 11 | 29 | 34 | | 59 | | 72 | |

DS – Mae blychau gwag ar GERDYN yn fwriadol ac ni ellir eu defnyddio i greu Patrwm Buddugol.

PATRWM 3 LLINELL (TŶ):

- 3 llinell lorweddol o 15 Rhif Cyfatebol ar unrhyw un o'r CARDIAU (A DDANGOSIR AR FFURF BLYCHAU WEDI'U CROESI)

Enghraifft



DS – Mae blychau gwag ar GERDYN yn fwriadol ac ni ellir eu defnyddio i greu Patrwm Buddugol.

Os oes gennych Gerdyn Crafu gyda Phatrwm Buddugol ar unrhyw un o'r CARDIAU, bydd hawl gennych i gael y Wobr ar gyfer y Patrwm Buddugol hwnnw fel y nodir yn y Tabl Gwobrau ar gyfer y CERDYN hwnnw, os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni.

Gall Chwaraewyr ennill hyd at 6 gwaith ar Gerdyn Crafu.

Symbolau Chwarae ar gyfer CALLER'S CARD, CERDYN 1, CERDYN 2, CERDYN 3, CERDYN 4, CERDYN 5 a CHERDYN 6

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | 01 | 02 | 03 | 04 | 05 | 06 |
| Symbolau Chwarae | 07 | 08 | 09 | 10 | 11 | 12 |
| Symbolau Chwarae | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| Symbolau Chwarae | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| Symbolau Chwarae | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 |
| Symbolau Chwarae | 31 | 32 | 33 | 34 | 35 | 36 |
| Symbolau Chwarae | 37 | 38 | 39 | 40 | 41 | 42 |
| Symbolau Chwarae | 43 | 44 | 45 | 46 | 47 | 48 |
| Symbolau Chwarae | 49 | 50 | 51 | 52 | 53 | 54 |
| Symbolau Chwarae | 55 | 56 | 57 | 58 | 59 | 60 |
| Symbolau Chwarae | 61 | 62 | 63 | 64 | 65 | 66 |
| Symbolau Chwarae | 67 | 68 | 69 | 70 | 71 | 72 |
| Symbolau Chwarae | 73 | 74 | 75 | 76 | 77 | 78 |
| Symbolau Chwarae | 79 | 80 | 81 | 82 | 83 | 84 |
| Symbolau Chwarae | 85 | 86 | 87 | 88 | 89 | 90 |

Bydd 40 o Symbolau Chwarae yn ymddangos o dan haen y CALLER'S CARD. Bydd 15 o Symbolau Chwarae (gan gynnwys 12 o flychau gwag) yn ymddangos ar bob CERDYN. Dim ond y Symbolau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae o un CERDYN â Symbolau Chwarae ar unrhyw GERDYN arall i ennill.

Ni ellir cyfuno Tabl Gwobrau ar un CERDYN ag unrhyw GERDYN arall, nac unrhyw Dabl Gwobrau ar unrhyw GERDYN arall i bennu Gwobr y mae gan y Chwaraewr hawl iddi.

YOU MUST BE 16 OR OVER TO PLAY OR CLAIM A PRIZE 16+

**GP GM1196**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®
AMAZING STARTS HERE

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm |
|---|---|---|---|
| £5 | Cerdyn 1 £5 | 553,604 | 22 |
| £5 | Cerdyn 6 £5 | 553,587 | 22 |
| £10 | Cerdyn 1 £10 | 395,452 | 30 |
| £10 | Cerdyn 2 £10 | 395,452 | 30 |
| £10 | Cerdyn 4 £10 | 395,452 | 30 |
| £10 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 6 £5 | 435,005 | 28 |
| £15 | Cerdyn 2 £15 | 118,653 | 100 |
| £15 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 2 £10 | 79,008 | 151 |
| £15 | Cerdyn 4 £10, Cerdyn 6 £5 | 39,520 | 301 |
| £15 | Cerdyn 2 £10, Cerdyn 6 £5 | 39,574 | 300 |
| £20 | Cerdyn 1 £20 | 39,553 | 300 |
| £20 | Cerdyn 3 £20 | 39,591 | 300 |
| £20 | Cerdyn 4 £20 | 39,574 | 300 |
| £20 | Cerdyn 5 £20 | 39,591 | 300 |
| £20 | Cerdyn 1 £10, Cerdyn 4 £10 | 39,553 | 300 |
| £20 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 2 £10, Cerdyn 6 £5 | 39,488 | 301 |
| £20 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 4 £10, Cerdyn 6 £5 | 39,520 | 301 |
| £50 | Cerdyn 3 £50 | 39,606 | 300 |
| £50 | Cerdyn 5 £50 | 44,494 | 267 |
| £50 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 2 £10, Cerdyn 3 £20, Cerdyn 4 £10, Cerdyn 6 £5 | 44,454 | 267 |
| £100 | Cerdyn 2 £100 | 1,894 | 6,264 |
| £100 | Cerdyn 6 £100 | 2,930 | 4,049 |
| £100 | Cerdyn 1 £5, Cerdyn 2 £10, Cerdyn 3 £20, Cerdyn 4 £10, Cerdyn 5 £50, Cerdyn 6 £5 | 2,948 | 4,025 |
| £500 | Cerdyn 3 £500 | 26 | 456,291 |
| £1,000 | Cerdyn 4 £1,000 | 20 | 593,178 |
| £25,000 | Cerdyn 5 £25,000 | 3 | 3,954,520 |
| £1,000,000 | Cerdyn 6 £1,000,000 | 4 | 2,965,890 |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd y galwadau'n costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 72.07% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £42,751,190 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae ohonynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, neu dynnu Cardiau Crafu yn ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu yn ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf (ac eithrio os bydd unrhyw Reolau Gêm Benodol yn gymwys i'r Gêm hon. Yn yr achos hwnnw, y Rheolau fydd drechaf).

.